



# Dysgu wrth fy nhraed

Mae Ysgol A yn gweithio'n agos gyda'r rhieni, gofalwyr a'r gymuned trwy ddarparu nosweithiau rhieni a llyfrau cyswllt adref er mwyn i'r rhieni gallu cael gwybodaeth ar beth mae'r disgyblion wedi bod yn gweithio ar o fewn yr ysgol ac unrhyw gryfderau neu wendidau sydd angen gweithio ar o gartref. Hefyd, mae gwasanaethau dysgu Cymraeg yn cael eu darparu i bob rhiant sydd methu siarad Cymraeg. O ganlyniad, bydd hyn yn helpu rhieni rhoi cymorth i'r plentyn o gartref, er enghraifft, i ddarllen. Mae polisi drws agored yn yr ysgol ac felly, mae rhieni yn cael mynediad hawdd at adnoddau, cymorth a gwybodaeth gan y brif athrawes un rhywbryd.

O ran gweithio gyda theuluoedd cyn i'r plentyn dechrau yn yr ysgol, mae yna gyfarfod croesawi i'w gael sydd yn rhoi'r cyfle i'r rhieni cael dro o amgylch yr ysgol a chyfathrebu gyda rhieni arall am gymorth. Mae hefyd cyfle i rieni sgwrsio gyda'r athrawon am unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd angen sylw. Yn ogystal, mae pob rhiant yn derbyn llyfr 'dysgu gyda Sam' er mwyn gallu dysgu Cymraeg syml.



Yn ychwanegol, mae Ysgol A yn darparu nosweithiau hyfforddiant i rieni sydd yn dioddef o broblemau cartrefol, ariannol ac yn feddyliol. Enghreifftiau o'r gwasanaethau maen nhw'n darparu yw sut i hybu sgiliau dysgu, diogelwch y plentyn ar y we a gwersi coginio i deuluoedd bregus, hynny yw, prydau sydd yn hawdd coginio, yn rhad ac yn iachus i'r teulu. Mae llawer o deuluoedd yn manteisio ar y cyfle yma ac mae pawb a chroeso i ymuno.



## Ysgol Goedwig

Mae'r ysgolion coedwig yn rhoi plant y cyfle i fagu hyder a dod yn fwy cyfarwydd gyda'r byd natur. Mae ysgolion coedwig hefyd yn magu lles y plant.

Gwnaeth yr ysgol rhoi cyfle i'r plant codi arian trwy wneud diwrnodau noddedig yn yr haf. Maen nhw'n gwneud hyn yn flynyddol ac yn sicrhau bod y plant yn cadw'n heini ond yn gwneud eu rhan yn y gymuned. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r plnt yn mwynhau y diwrnod

O ran y gymuned, mae Ysgol A yn gwneud gwasanaethau Nadolig ac yn casglu bwyd ac arian yn yr eglwys. Mae hefyd ymweliadau'r dosbarth meithrin i flwyddyn 6 yn cymryd lle o fewn yr ysgol er mwyn sicrhau bod rhieni a'r gymuned gyda chroeso yn wastadol. Mae hyn yn cysylltu gyda'r polisi drws agored sydd gan yr ysgol.

## Bronfenbrenner

Roedd Bronfenbrenner yn credu bod dylanwadau yn gallu creu effaith uniongyrchol i ddatblygiad plentyn. Rhannodd Bronfenbrenner amgylchedd y person yn bum system wahanol;

- y system ficro (pobl agosach at y plentyn,
- system meso (cymuned agos, er enghraifft, ysgol)
- system exo (dim perthynas uniongyrchol)
- system facro (diwylliant yr amgylchedd, er enghraifft, crefydd) a
- system chrono (cysondeb a newid, hynny yw, cofid a phlant Wcraïn

Mae ysgol hefyd yn darparu boreau coffi lle mae cyfle i'r rhieni cwrdd â rhieni eraill, cyfathrebu gofidiau efo CAHMS, nyrsiai ac elusennau. Trwy wneud hyn, mae'r rhieni a'r gymuned yn cael mynediad haws i wasanaethau pwysig sydd yn gallu helpu. Er lles y disgyblion, mae yna bosteri golchi dwylo, sut i fwyta'n iach a ble i gael help os oes angen unrhyw cymorth, sef, yr athro diogelu plant.

## Hierchaeth Maslow

Mae theori hierchaeth maslow yn nodi bod ein gweithredoedd yn cael eu cymell ymlaen o'r bôn i'r cymhleth. Rydym yn defnyddio pyramid o anghenion er mwyn pa anghenion sylfaenol sydd angen i'r plenty er mwyn gallu symud i'r camau mwy cymhleth. Os nad yw'r anghenion sylfaenol yn cael eu cwrdd, bydd y plentyn yn cwmpo tu ôl i gymharu â'r plant eraill yn yr ystafell dosbarth.

Wrth weithio gyda'r gwahanol feysydd dysgu, mae'n amlwg bod cefnogaeth teuluoedd yn hollbwysig i'r ysgol. Er mwyn annog hyn, mae yna nosweithiau agored ar gael i'r rhieni er mwyn cyflwyno gweithdrefnau, themâu, rheolau ac ymweliadau preswyl er mwyn i'r rhieni teimlo'n rhan o'r gymuned ac yn rhoi cyfle i'r rhieni lleisio eu pryderon. Os mae rhieni methu ymweld â'r ysgol, mae'r ap WeDuk yn cynnwys profiadau'r plant a beth maen nhw'n gwneud yn ddyddiol/tymhorol ac yn cael eu darparu ar gyfer pob rhiant. Yn ogystal, mae nosweithiau targedu ac adroddiadau yn cael eu cynnal o fewn yr ysgol hefyd er mwyn gallu rhoi rhieni syniad o beth sydd angen gwellhau nid yn unig yn yr ysgol ond yn y cartref. Mae hyn yn galluogi cynnydd academaidd da yn yr ysgol.